TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Jewellery Making

Yn gryno

A ydych chi erioed wedi codi carreg fach o'r traeth, wedi darganfod darn o wydr môr, wedi gweld gem led-werthfawr neu grisial ac wedi meddwl...rwy'n hoffi hwn ond beth wna i ag o? Peidiwch â'u cadw ar silff - trowch nhw yn ddarnau unigryw o emwaith wedi'u rhwymo â gwifrau!

Ymunwch â ni am gwrs 5 wythnos hwyliog ac ysbrydoledig. Byddwch yn cymryd rhan mewn cyfres o sesiynau ar ffurf gweithdy, a fydd yn eich cyflwyno i hanfodion rhwymo â gwifrau. Unwaith bydd y wybodaeth a'r technegau sylfaenol gennych, byddwch yn cael eich annog i ddylunio a chreu eich darn eich hun o emwaith unigryw gan ddefnyddio'r trysorau rydych wedi eu darganfod.

Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

...dechreuwyr pur sydd ddim wedi gwneud gemwaith o'r blaen

... unrhyw un sydd eisiau dysgu rhywbeth newydd

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

...pobl greadigol sy'n chwilio am hobi creadigol.

Cynnwys y cwrs

Bydd y cwrs hwn yn eich cyflwyno i feysydd allweddol gemwaith wedi'i rwymo â gwifrau:

Hanfodion trin gwifren
Gwehyddu gwifrau
Rhwymo cerrig/gleiniau.

Erbyn diwedd y cwrs, dylech deimlo'n ddigon hyderus i allu defnyddio'r technegau a ddysgoch i ymestyn eich taith greadigol gyda'ch gemwaith - eich dychymyg yn unig sy'n eich cyfyngu!

Darperir yr holl offer angenrheidiol ynghyd â nifer gyfyngedig o wifrau ac ystod o leiniau/cerrig i ymarfer y technegau sylfaenol.

Bydd angen i chi brynu gwifrau a gleiniau/cerrig ychwanegol er mwyn cwblhau eich dyluniadau eich hun.

Gofynion Mynediad

Nid oes gofynion mynediad ar gyfer y cwrs hwn.

Gwybodaeth Ychwanegol

Mae Ysgol y Celfyddydau Creadigol yn cynnig dewis o gyrsiau ar nos Fercher rhwng 6-9pm trwy gydol y flwyddyn, heblaw am cynhurchu gemwaith a fydd 6-8yp. Mae pob cwrs yn rhedeg am 6 wythnos ac yn dechrau a gorffen ar yr un dyddiadau.

Y cyrsiau sydd ar gael ar hyn o bryd yw Gwneud Gemwaith, Cerameg, Ffotograffiaeth, Argraffu 3D, Gwneud Printiau, Tecstilau, Lles Creadigol ac Ymarfer Celfyddydau, Sgiliau DJ gan ddefnyddio Ableton Live, y Celfyddydau Perfformio a Chanu er Pleser.

Bydd yr holl wifrau ac offer yn cael eu darparu. Bydd angen i chi ddod â dewis o fwclis 6mm a 4mm yn ogystal â'ch eitemau eich hun i lapio weiren o'u cwmpas. Er enghraifft - cerrig lliwgar lled-werthfawr, gwydr môr, cerrig bychain, cregyn.